# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0913(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 5 Tachwedd 2009

**At Brynle Williams:**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn eich ymholiad yn y Cyfarfod Llawn ar 21ain Hydref 2009 ynghylch y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a'i heffaith ar economi a diwylliant Cymru.

Mae fy swyddogion wedi ymgynghori â chydweithwyr yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU a'r Asiantaeth Gwasanaethau a Gweithredwyr Cerbydau (VOSA). Credaf mai'r rheoliad perthnasol yr Undeb Ewropeaidd y cyfeiriwch ato yw Rheoliad yr UE ar oriau gyrwyr (Rheoliad (EC) 561/2006).

Mae'r Rheoliad yn rhagnodi terfynau uchaf ar amser gyrru a lleiafswm gofynion ar gyfer egwyliau a chyfnodau o orffwys ar gyfer y rhan fwyaf o yrwyr cerbydau nwyddau sy'n fwy na 3.5 tunnell. Disodlodd Reoliad blaenorol yr EU yn 1985 ar 11 Ebrill 2007.

Am resymau diogelwch ar y ffyrdd, daw gyrwyr cerbydau mwy sydd o dan berchnogaeth breifat o dan gwmpas rheolau'r UE. O dan y rheolau hyn, mae'n rhaid i yrrwr gymryd cyfnod o 45 awr o orffwys yn olynol o leiaf bob wythnos ar ôl chwe diwrnod ar y mwyaf. Mae'n bosibl lleihau hyn i 24 awr bob yn ail wythnos ar yr amod y caiff cyfnod cyfatebol o orffwys ei gymryd gyda'i gilydd cyn diwedd y drydedd wythnos yn dilyn yr wythnos dan sylw. Fodd bynnag, byddai unrhyw amser a dreulir yn gweithio i gyflogwr y tu allan i'r diwydiant trafnidiaeth ar y ffyrdd yn cael ei gyfrif fel cyfnod o waith arall, nid cyfnod o orffwys. Felly, os byddai unigolyn yn gwneud gwaith rhwng dydd Llun a dydd Gwener er enghraifft, fel arfer byddent ond yn cael gyrru o dan gwmpas rheolau'r UE ar gyfer un diwrnod ar y penwythnos cyn gorfod dechrau ar gyfnod o orffwys wythnosol.

Rwy'n deall y caiff rhai sioeau amaethyddol eu cynnal ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Fel arfer, cânt eu cynllunio ymhell ymlaen llaw. Felly er y gallai achosi ychydig o anghyfleustra, dylai fod yn bosibl o hyd i'r rheini mewn cyflogaeth llawn amser drefnu cyfnod o orffwys wythnosol gostyngedig o 24 awr yn union cyn y digwyddiad dan sylw, neu rhwng gyrru i'r digwyddiad ac oddi yno (h.y. yn y digwyddiad ei hun).

Mae nifer o eithriadau o reolau'r UE, ac mae un ohonynt yn berthnasol i gerbydau sy'n llai na 7.5 tunnell a defnyddir ar gyfer cludo nwyddau'n anfasnachol - a fyddai'n cynnwys rhai cerbydau o dan berchnogaeth breifat. Yn gyffredinol, byddai VOSA fel arfer yn ystyried bod cerbyd o dan 7.5 tunnell yn cael ei ddefnyddio'n anfasnachol lle byddai'n glir na chaiff nwyddau eu cludo er mwyn gwneud elw. Fodd bynnag, y Llysoedd sy'n cael dehongli'r gyfraith yn y pen draw.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon o gymorth i chi.